Rhif: WG 39238

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion - adroddiad ychwanegol

# Canllawiau (Drafft) ar y Grant Cymorth Tai

Canllawiau Ymarfer i Awdurdodau Lleol

Mawrth 2020

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-80038-281-7

## 1. Cefndir

1.1. Ers cyhoeddi'r Adroddiad ar Grynodeb o Ymatebion yr Ymgynghoriad ar y Canllawiau Drafft ar y Grant Cymorth Tai ar 10 Chwefror, a'r Canllawiau terfynol ar y Grant Cymorth Tai ar 11 Chwefror, cafodd ei ddwyn i'n sylw fod problem wedi bod gyda'r ymatebion a gwblhawyd ar-lein. Gwnaeth gwall mewnol olygu na dderbyniwyd yr ymatebion ar-lein wedi'u cwblhau drwy wefan Llywodraeth Cymru. Yn anffodus, mae hyn yn golygu nad ystyriwyd yr ymatebion hyn fel rhan o'r broses arferol ac na chawsant eu cynnwys felly yn yr adroddiad cryno ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

1.2 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru bellach wedi ystyried yr holl ymatebion ychwanegol, a chrynodeb o'r ymatebion hynny sydd yn yr adroddiad hwn. Gwnaeth swyddogion adolygu'r Canllawiau yng ngoleuni'r ymatebion hyn a daethant i'r casgliad nad oedd angen gwneud newidiadau pellach iddynt. Penderfynwyd ar hyn gan fod pob un o'r materion sylweddol a godwyd eisoes wedi cael sylw wrth ystyried yr ymatebion eraill i'r ymgynghoriad.

## 2. Y Broses Ymgynghori

2.1 Rhwng 7 Hydref a 29 Tachwedd 2019, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ffurfiol ar y Canllawiau drafft ar y Grant Cymorth Tai i awdurdodau lleol. Gwnaeth yr ymgynghoriad bara am wyth wythnos yn lle'r 12 wythnos arferol oherwydd y gwaith ymgysylltu helaeth a wnaed eisoes â rhanddeiliaid er mwyn cyd-lunio'r canllawiau. Darparwyd fersiynau ar-lein o'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflenni ymateb yn Gymraeg a Saesneg. Anfonwyd y ddolen i'r ymgynghoriad i bob awdurdod lleol a sefydliad ymbarél ac at randdeiliaid perthnasol eraill.

2.2. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys wyth cwestiwn ac yn ceisio barn ar b'un a yw'r trefniadau a nodir yn y canllawiau ymarfer ar y Grant Cymorth Tai yn glir ac yn addas at y diben, ac a ydynt yn galluogi comisiynwyr a darparwyr i ateb diben craidd y grant a darparu'r gwasanaethau cymorth hollbwysig sydd eu hangen ar gyfer yr unigolion dan sylw.

2.3 Cafwyd 38 o ymatebion ac fe'u nodwyd yn yr Adroddiad Cryno ar yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad gwreiddiol a gyhoeddwyd ar 10 Chwefror 2020.

2.4 Cafwyd 17 o ymatebion ar-lein ychwanegol, yr oedd 5 ohonynt am aros yn ddienw. Daeth y rhain o amrywiaeth o sectorau gan gynnwys awdurdodau lleol, Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, a sefydliadau'r trydydd sector (ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn atodiad A).

## 3. Crynodeb o'r ymatebion

### 3.1 Cwestiwn 1a - A yw cymhwysedd ar gyfer y grant wedi'i ddisgrifio'n glir ac a yw'n gywir o ran ei gwmpas? Os mai Nac ydy yw'r ateb, beth y byddech yn ei newid am y canllaw?

Adborth o'r ymgynghoriad

Ar y cyfan roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod y cymhwysedd yn glir ac yn gywir. Lle nad oedd yn glir, codwyd y materion allweddol canlynol:

- Hyd y Cymorth: - Croesawodd Llamau y ffaith na ddylai fod terfyn amser ar hyd y cymorth. Fodd bynnag, teimlai y gallai'r canllawiau gael eu hatgyfnerthu i bwysleisio'r ffaith y dylai awdurdodau lleol osgoi pennu terfynau amser sy'n rhy gyfyngol, ac y cydnabyddir y gall fod angen i ddefnyddwyr gwasanaethau ailgysylltu â gwasanaethau.
- Y Sector Rhentu Preifat:- Awgrymodd Safeagent fod angen i'r canllawiau fod yn fwy pendant ynghylch darparu cymorth i denantiaid sy'n byw yn y sector rhentu preifat neu sy'n symud iddo.
- Oedran: - Hoffai Cymdeithas Tai Cadwyn weld cwmpas y grant yn cael ei ehangu i gydnabod gwaith gyda theuluoedd, a fyddai'n cynnwys pobl o dan 16 oed. Cododd GISDA hefyd y mater o weithio gyda phobl o dan 16 oed y mae angen cymorth arnynt, a gallai hyn gael ei gynnwys yn y cymhwysedd.
- Dim meini prawf cysylltiad lleol: - Cododd Cymdeithas Tai Cadwyn bryder y byddai dileu'r cysylltiad lleol yn cael effaith sylweddol ar y galw sydd ar awdurdodau lleol. Cefnogodd Llamau hyn ond gofynnodd am wybodaeth am sut y bydd yn gweithio'n ymarferol. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn pryderu ynghylch sut y byddai hyn yn effeithio ar bolisi dyraniadau tai lleol a'r gallu i gynllunio ar gyfer adeg pan nad oedd y galw yn hysbys.
- Dim hawl i arian cyhoeddus: - Gofynnodd Llamau am fwy o arweiniad ar sut y dylai ymdrin â cheisiadau am gymorth gan bobl heb hawl i arian cyhoeddus.

.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- Mae Pennod 2 o'r Canllawiau terfynol eisoes wedi ei diweddaru er mwyn:

- Atgyfnerthu'r adran ar hyd y cymorth, a ddylai fynd i'r afael â'r sylwadau a godwyd gan Llamau.
- Cyfeirio'n benodol at y cymorth i bobl sy'n byw yn y Sector Rhentu Preifat neu sy'n symud iddo.
- Ehangu'r cymhwysedd oedran i gynnwys gwaith cyn-tenantiaeth a gwaith ataliol gyda phobl o dan 16 oed.
- Egluro'r meini prawf dim cysylltiad lleol ac esbonio nad cyfrifoldeb yw hyn i ariannu darpariaeth y Grant Cymorth Tai y tu allan i ffin yr awdurdod lleol. Ar gyfer y Grant Cymorth Tai, y disgwyliad yw y bydd yr awdurdod lleol yn diwallu'r angen ar yr adeg pan gaiff ei gyflwyno ac nad ystyrir cysylltiad lleol mewn perthynas â chyllid y Grant Cymorth Tai.
- Darparu esboniad cliriach o safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch unigolion nad ydynt yn gymwys ar gyfer Grant Cymorth Tai oherwydd eu statws mewnfudo ac nad ydynt yn gymwys am arian cyhoeddus.

**3.2 Cwestiwn 1b – A yw'r canllaw drafft yn nodi diben clir ar gyfer y grant, yn eich barn chi? Os mai Nac ydy yw'r ateb, beth y byddech yn ei ychwanegu at y canllaw?**

Adborth o'r ymgynghoriad

Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau yn darparu diben clir ar gyfer y grant ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol fod yn

arloesol a chreadigol. Dywedodd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf fod y canllawiau yn gliriach na chanllawiau blynyddoedd blaenorol a chroesawodd yr hyblygrwydd y bydd y grant cyfunol yn ei ddarparu gan alluogi awdurdodau lleol i addasu'n well i anghenion lleol. Lle nad oedd yn glir, codwyd y materion allweddol canlynol:

- Diben y grant: - Cwestiynodd Llamau ac ymatebydd dienw gwerth cynnwys *'ariannu'r gwaith o godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth gyda gweithwyr proffesiynol eraill a'r cyhoedd yn ehangach, ac ati';* o fewn diben craidd y grant, o gofio'r cyllid cyfyngedig a'r ffaith bod y galw am wasanaethau cymorth yn uchel, ac awgrymodd y dylai fod yn gyfrifoldeb trawslywodraethol ac y dylai gwasanaethau cyhoeddus ei ddarparu yn lle hynny.
- Gofynnodd Llamau am eglurder ynghylch goruchwyliaeth glinigol ac ymarfer myfyriol ochr yn ochr â hyfforddiant staff, cofrestru'r gwasanaeth ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), a chymorth emosiynol.

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>

- Yn dilyn ystyriaeth flaenorol o hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cadw *'ariannu'r gwaith o godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth gyda gweithwyr proffesiynol eraill a'r cyhoedd yn ehangach'* yn y canllawiau gan y teimlwyd ei bod yn bwysig bod hyn ar gael i awdurdodau lleol pe bai angen iddynt ei ddefnyddio at y diben hwnnw. Mae a wnelo codi ymwybyddiaeth yn y cyd-destun hwn â'r Grant Cymorth Tai a pha gymorth sydd ar gael, ac nid â chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ddigartrefedd nac at ddibenion codi arian na chyflwyno prosiectau. Mae'r canllawiau yn mynd ymlaen i ddweud bod mynd i'r afael â digartrefedd a'i atal yn fater i'r gwasanaeth cyhoeddus cyfan ac nad yw'n fater sy'n ymwneud â thai yn unig.
- Mae'r Canllawiau terfynol wedi cael eu diweddaru i gynnwys cyngor ar wasanaethau a gofrestrir ag AGC ac eglurhad y gall cymorth therapiwtig gael ei ariannu o'r grant. Teimla Llywodraeth Cymru fod y canllawiau eisoes yn ddigon clir mewn perthynas â gwasanaethau cymorth emosiynol.

**3.3 Cwestiwn 2 – Bwriedir i'r adran ar gyllid ar gyfer Gwasanaethau Larwm (yn Atodiad F o'r canllawiau) fod yn gliriach ac yn ehangach nag y mae mewn canllawiau blaenorol. A yw'r cwmpas ar gyfer ariannu larymau'n briodol ac yn glir?**

<u>Adborth o'r ymgynghoriad</u>

Roedd wyth o'r rhai a ymatebodd yn teimlo bod y canllawiau ar larymau yn briodol ac yn glir, ac roedd rhai yn croesawu'r hyblygrwydd cynyddol a roddir i awdurdodau lleol. Nid ymatebodd tri o'r ymatebwyr ac nid oedd chwech yn cytuno bod hyn yn glir, a chodwyd y materion allweddol canlynol ganddynt:

- Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili y byddai'n croesawu penderfyniad cliriach ynghylch a ddylid ariannu larymau gan fod anghysondeb ledled Cymru yn hyn o beth.
- Byddai rhai ymatebwyr yn hoffi gweld eglurhad pellach o'r hyn a all fod yn gymwys ar gyfer cymorth drwy'r system lles. Awgrymodd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf y dylai canllawiau ychwanegol gael eu darparu er mwyn

cynorthwyo darparwyr yn eu trafodaethau ag adrannau Budd-dal Tai a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

- Dywedodd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf hefyd y gallai gadael y penderfyniad i awdurdodau lleol arwain at loteri cod post ledled Cymru.
- Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fod y canllawiau ar larymau yn gwrthddweud ei gilydd ac yn anodd eu dehongli.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- Mae'r Canllawiau terfynol wedi cael eu diweddaru yn Atodiad F i gynnwys canllawiau ar ba elfennau o'r ddarpariaeth larymau a all gael eu hariannu o'r system lles. Fodd bynnag, ni all Llywodraeth Cymru roi arweiniad i adrannau Budd-dal Tai gan fod hyn wedi ei lywodraethu gan bolisi annatganoledig.

**3.4 Cwestiwn 3 – A yw'r fframwaith cynllunio strategol yn y canllaw drafft yn darparu digon o'r canlynol, yn eich barn chi –**

- **Hyblygrwydd,**
- **Atebolrwydd**
- **Tryloywder?**

**Os nad yw'n gwneud hynny, awgrymwch sut y gellid ei wella**

Adborth o'r ymgynghoriad

Cytunodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr fod y fframwaith cynllunio a nodir yn y canllawiau yn darparu digon o hyblygrwydd, tryloywder ac atebolrwydd. Dywedodd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf fod y fframwaith newydd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd o fewn y Grant Cymorth Tai, gan ddod â digartrefedd a gwasanaethau cymorth ynghyd er mwyn integreiddio'n well o ran cynllunio a darpariaeth, a dywedodd Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd ei fod yn tanlinellu pwysigrwydd cydweithredu.

Lle y tybiwyd nad oedd yn ddigonol, codwyd y materion allweddol canlynol:

- Cododd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf, Cymdeithas Tai Cadwyn a Llamau, bryderon ynghylch diffyg atebolrwydd a goruchwyliaeth ganfyddedig awdurdodau lleol oherwydd na fyddai'n rhaid iddynt gyflwyno adroddiadau i Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol mwyach a'r ffaith y byddai gan awdurdodau lleol fwy o hyblygrwydd ynghylch y ffordd y maent yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid fel rhan o'u proses gynllunio, a holwyd pa fesurau a fyddai ar waith er mwyn sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn dilyn y canllawiau. Roedd Cymdeithas Gofal Sir Benfro hefyd yn teimlo bod y canllawiau yn rhy hyblyg i awdurdodau lleol a bod diffyg atebolrwydd a thryloywder drwyddi draw, yn enwedig yn y broses o fapio anghenion ac adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru, a phroses fonitro'r Llywodraeth.
- Dywedodd Llamau a Chymdeithas Gofal Sir Benfro hefyd y byddent yn croesawu cynnwys system yn y canllawiau i ddarparwyr a defnyddwyr gwasanaethau sydd â phryderon ynghylch y diffyg ymgysylltu neu ymwneud neu ynghylch ansawdd y gwasanaethau, sy'n nodi â phwy y gallant gysylltu a'r weithdrefn i'w dilyn os oes anghytundeb.
- Argymhellodd Llamau y dylai egwyddorion ymgysylltu â darparwyr gael eu cynnwys yn y canllawiau er mwyn sicrhau ymgysylltu o safon.

- Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ei bod yn ymddangos bod angen nifer fawr o ddogfennau, sy'n ailadroddus iawn, a gwnaeth awgrymiadau ar gyfer symleiddio'r dogfennau. Soniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr hefyd fod yr angen am Gynllun Cyflenwi blynyddol llawn ar gyfer y Grant Cymorth Tai yn ogystal â Strategaeth ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai yn ymddangos yn ormodol. Cwestiynodd y ddau awdurdod lleol y ffaith nad yw amserlenni'r Strategaeth ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai yn gyson â'r amserlenni sydd eisoes yn bodoli ar gyfer y Strategaeth Digartrefedd.
- Croesawodd ymatebydd dienw yr angen am asesiad o anghenion er mwyn llywio'r broses gynllunio strategol. Fodd bynnag, teimlwyd y gellid ei atgyfnerthu mewn rhai ardaloedd. Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu fformat penodol ar gyfer yr asesiad o anghenion ac y dylid addasu templed y Strategaeth ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai fel ei bod yn cysylltu'n well â'r asesiad o anghenion.

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>

- Mae'r adran ar rôl Llywodraeth Cymru yn 8.4.2 yn y canllawiau terfynol eisoes wedi cael ei hymestyn i nodi'n glir ei rôl wrth fonitro darpariaeth awdurdodau lleol yn erbyn eu cyflwyniadau cyllido a'u dwyn i gyfrif o ran ymwneud ystyrlon â phobl â phrofiad uniongyrchol a darparwyr gwasanaethau.
- Mae diagram wedi cael ei ychwanegu yn Atodiad A o'r canllawiau terfynol i egluro'r fframwaith cynllunio yn gliriach. Fodd bynnag, nid ydym am fod yn rhy rhagnodol yn y canllawiau na rhoi beichiau ychwanegol ar awdurdodau lleol, gan mai'r bwriad yw rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol gomisiynu gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol.
- Mae egwyddorion ymgysylltu wedi cael eu hychwanegu ym mhennod 4 (ymgysylltu â darparwyr a landlordiaid) a phennod 6 (ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau).
- Mae'r canllawiau terfynol wedi cael eu diweddaru ym mhennod 8 er mwyn egluro â phwy y gall darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau gysylltu a'r weithdrefn i'w dilyn os bydd anghytundeb.

### 3.5 Cwestiwn 4 - Gwaith Rhanbarthol - A yw'r cyfeiriad a bennwyd ar gyfer gwaith rhanbarthol a chwmpas y Grwpiau Cydweithredol Rhanbarthol yn gywir, yn eich barn chi?

<u>Adborth o'r ymgynghoriad</u>

Dywedodd 11 o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno â'r cyfeiriad a bennwyd ar gyfer gwaith rhanbarthol, ac atebodd chwe ymatebydd nad oeddent yn cytuno neu nad oeddent yn gwybod. Mae hyn yn rhannol oherwydd y diffyg manylion y gellir eu darparu ar yr adeg hon ynghylch sut y bydd y gydberthynas â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithio. Cafwyd sylwadau am y canlynol:

- Awgrymodd nifer o ymatebwyr fod angen i fwy nag un darparwr cymorth ac un landlord gael eu cynrychioli ar y Grwpiau Cydweithredol Rhanbarthol.
- Soniodd nifer o ymatebwyr hefyd am y cynrychiolydd tai ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r angen i sicrhau bod materion digartrefedd a chymorth sy'n gysylltiedig â thai yn cael digon o sylw. Awgrymwyd bod angen

cael cynrychiolydd cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn ogystal â chynrychiolydd cyfalaf tai.

- Cyflwynwyd nifer o awgrymiadau ynghylch sut y gallai'r Grwpiau Cydweithredol Rhanbarthol a rôl y Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol weithio o dan y trefniadau newydd, gan gynnwys sicrhau bod y Grŵp Cydweithredol Rhanbarthol yn cael ei integreiddio'n llawnach yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, datblygu grwpiau gorchwyl a gorffen, ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau ac ystyried sut y gallai'r Grŵp Cydweithredol Rhanbarthol weithio yn y Canolbarth a'r Gorllewin h.y. dau grŵp ar wahân.
- Awgrymodd Adra Tai Cyfyngedig y dylid newid enw'r Grwpiau Cydweithredol Rhanbarthol i Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol fel ei bod yn glir eu bod yn ymwneud â chymorth tai.

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>

- Mae Pennod 5 ar Waith Rhanbarthol yn y canllawiau terfynol wedi cael ei gadael yn hyblyg yn fwriadol gan ein bod yn gweithredu mewn amgylchedd dynamig sy'n esblygu, a bydd angen datblygu'r ffyrdd o weithio gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol dros amser.
- Ni allwn fynnu aelodaeth o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn y Canllawiau ar y Grant Cymorth Tai, ond, y flaenoriaeth i'r Grwpiau Cydweithredol Rhanbarthol a'r Cydgysylltwyr Datblygu Rhanbarthol yw meithrin y gydberthynas â'r Cynrychiolwyr Tai ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, i'w helpu i ddeall materion cymorth sy'n gysylltiedig â thai ac i lywio'r trafodaethau ynghylch gwaith cydweithredol.
- Mae'r aelodaeth o'r Grwpiau Cydweithredol Rhanbarthol wedi cael ei haddasu i ddarparu hyblygrwydd o ran faint o gynrychiolwyr darparwyr a landlordiaid a all fod yn y Grŵp. Mae hefyd yn cynnwys gofyniad i gael cynrychiolydd o'r sector rhentu preifat yn y Grŵp.
- Mae enw'r Grŵp Cydweithredu Rhanbarthol wedi cael ei newid yn ffurfiol i'r Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol.

**3.6 Cwestiwn 5 – A yw'r canllaw drafft yn cael unrhyw effaith negyddol ar gydraddoldeb ran y nodweddion gwarchodedig, yn eich barn chi? Os mai Ydy yw'r ateb, eglurwch pam?**

<u>Adborth o'r ymgynghoriad</u>

Dim ond dau sylw/mater a godwyd mewn perthynas â'r cwestiwn hwn:

- Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai awdurdodau lleol fod yn gorfod ymgysylltu â rhywun o'r adran Cydraddoldeb a Chynhwysiant (e.e. Tai Pawb) fel rhan o'u gwaith cynllunio strategol o ymgysylltu â rhanddeiliaid, fel na ddiystyrir pobl â nodweddion gwarchodedig.
- Awgrymodd Unedig Cymru y dylid cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar bob contract a gomisiynir gan yr awdurdod lleol.

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>

- Mae'r fframwaith cynllunio strategol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol wrth ddatblygu eu Strategaeth ar gyfer y

Rhaglen Cymorth Tai a'u Cynllun Cyflenwi ar gyfer y Grant Cymorth Tai. Mae hyn yn llywio eu gwaith comisiynu a'r mathau o wasanaethau sy'n ofynnol. Noda'r Canllawiau hefyd y dylent fod yn ystyried Deddf Cydraddoldeb 2010 wrth ddarparu'r Grant. Felly nid yw Llywodraeth Cymru yn credu bod Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn ofynnol ar gyfer pob contract, oni ragnodir hyn o dan eu rheolau sefydlog caffael lleol eu hunain.

- Mae'r Canllawiau terfynol wedi cael eu diweddaru i gynnwys cyfeiriad at sicrhau y caiff grwpiau ymylol eu hystyried gan awdurdodau lleol wrth gomisiynu a chydgysylltu gwasanaethau. Mae hefyd yn mynnu bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod llais grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol/sy'n cael eu hymyleiddio yn cael ei glywed wrth gynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn y broses o gynllunio, comisiynu a chaffael gwasanaethau. Er nad ydym yn mynnu yn y canllawiau fod yn rhaid i awdurdodau lleol ymgysylltu â chynrychiolwyr cydraddoldeb a chynhwysiant fel rhan o'u gwaith cynllunio, nid yw hyn yn atal awdurdodau lleol rhag gwneud hynny ac mae tybiaeth y byddai hyn yn digwydd fel rhan o'u Hasesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

**3.7 Cwestiwn 6 – Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r canllaw drafft yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

a

**Cwestiwn 7 – Eglurwch hefyd sut y gellid llunio neu newid y canllaw ymarfer arfaethedig, yn eich barn chi, er mwyn sicrhau'r canlynol:**

- **y caiff effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg**
- **na chaiff effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg**

<u>Adborth o'r ymgynghoriad</u>

Er i nifer o ymatebwyr gynnig syniadau am sut y dylai awdurdodau lleol fod yn darparu eu gwasanaethau yn unol â Safonau'r Gymraeg, dim ond ychydig o faterion penodol a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, fel a ganlyn:

- Awgrymodd ymatebydd dienw y dylai'r Cynllun Cyflenwi ar gyfer y Grant Cymorth Tai hefyd gynnwys yr angen i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ogystal â'r Strategaeth ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai ac y dylai awdurdodau lleol, fel rhan o'u hadroddiadau ar gynnydd, nodi sut y maent yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Nododd Adra Tai Cyfyngedig y dylai'r canllawiau gynnwys pwysigrwydd darparu gwasanaethau i bobl agored i niwed yn eu dewis iaith.

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>

- Mae'r Canllawiau ar y Grant Cymorth Tai drwyddynt draw yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o ran cynllunio, comisiynu a chaffael gwasanaethau. Mae'r Canllawiau terfynol wedi cael eu diweddaru ym

mhennod 6 i nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau yn yr iaith sy'n briodol i amgylchiadau'r unigolyn.
- Nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod cydymffurfiaeth awdurdodau lleol â Safonau'r Gymraeg yn fater y mae'n rhaid i'r Grant Cymorth Tai ei fonitro. Fodd bynnag, mae'n ofynnol iddynt gynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r broses gynllunio strategol a ddylai ddangos sut y maent wedi ystyried y gofynion a'u cynnwys yn y broses o gynllunio gwasanaethau. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gwirio, fel rhan o gyflwyniad cyllido blynyddol yr awdurdod lleol, sut y mae wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan o'i waith cynllunio.

**3.8 Cwestiwn 8 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym ni wedi mynd i’r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle isod i'w nodi**

Adborth o'r ymgynghoriad

Cafodd Llywodraeth Cymru nifer o sylwadau ychwanegol i'r cwestiwn hwn, yr ydym wedi eu rhannu'n gategorïau fel y nodir isod, ac rydym ond wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn lle roeddent yn arwyddocaol neu lle y cododd dau neu fwy o sefydliadau yr un mater:

- Comisiynu: - Cafwyd nifer o sylwadau yn ymwneud â'r broses gomisiynu a chaffael, a'r un mwyaf cyffredin oedd yr angen i'r canllawiau bwysleisio mai ansawdd y cymorth a ddarperir ddylai fod yr ystyriaeth bwysicaf wrth gomisiynu, ac awgrymwyd y dylid argymell rhaniad o 70%ansawdd/30%cost yn y canllawiau. Codwyd mater arferion gwaith teg a chyflog teg hefyd.
- Dull gweithredu wedi ei lywio gan drawma: - Er bod gweithio mewn ffordd wedi'i llywio gan drawma wedi cael ei gynnwys yn y canllawiau drafft, o dan y gwerthoedd sy'n sail i'r grant, byddai Llamau yn croesawu cyfeiriad mwy amlwg at bum elfen amgylcheddau sydd wedi'u llywio'n seicolegol.
- GDPR: - Gofynnodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chymdeithas Gofal Sir Benfro a allai'r canllawiau gynnwys cymorth i rannu gwybodaeth ar draws ffiniau a rhannu gwybodaeth rhwng darparwyr. Gofynnodd Llamau hefyd a allai'r canllawiau roi eglurhad ynghylch y ffaith mai'r awdurdod lleol oedd y rheolydd data ar gyfer trosglwyddo data rhwng darparwyr.
- Holodd rhai o'r ymatebwyr ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio'r Grant Cymorth Tai i ariannu costau gweinyddol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- Mae canllawiau wedi cael eu hychwanegu ym mhennod 2 ynghylch comisiynu a darparu gwasanaethau wedi'u llywio'n seicolegol.
- Nid yw Llywodraeth Cymru yn teimlo y byddai'n briodol cynnwys cymhareb cost/ansawdd ragnodedig ar gyfer caffael, gan y dylai hyn fod yn seiliedig ar y math o wasanaeth a gomisiynir a dylai fod yn unol â rheolau sefydlog caffael lleol. Fodd bynnag, mae’r canllawiau yn pwysleisio'r angen i ganolbwyntio ar ganlyniadau llesiant pobl drwy ddull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn o lunio strategaeth a chomisiynu. Cyfeiriwn awdurdodau lleol yn benodol at y Bil Partneriaeth Cymdeithasol sy'n cynnig symud i ffwrdd o ddull cost is fesul achos i ddull gweithredu mwy strategol.
- Noda'r Canllawiau y dylai awdurdodau lleol gydymffurfio â deddfwriaeth GDPR. Os daw'n amlwg yn ymarferol bod hyn yn achosi problemau ar raddfa fwy a

rhwystrau o ran rhannu gwybodaeth, yna gellid cynnal adolygiad ar wahân. Nid yw Llywodraeth Cymru yn teimlo bod hyn yn fater y dylid ymdrin ag ef yn y canllawiau.

- Yn hanesyddol, rhoddwyd arian i awdurdodau lleol ariannu costau gweinyddol y rhaglen cefnogi pobl (sef y Grant Cymorth Tai bellach) drwy eu Grant Cynnal Refeniw. Dim ond wrth ddarparu gwasanaethau rheng flaen y dylid defnyddio cyllid y Grant Cymorth Tai.
- Mae'r Canllawiau terfynol nawr yn cynnwys cyfeiriad at Waith Teg Cymru a gwaith teg ar arferion moesegol yn y bennod ar gomisiynu.

## 4. Y camau nesaf

4.1 Cyhoeddwyd y Canllawiau terfynol ar y Grant Cymorth Tai ar 11 Chwefror 2020, a byddant yn dod yn weithredol o fis Ebrill 2020.

**Atodiad A**

| | |
|---|---|
| Adra Tai Cyfyngedig | GISDA |
| Cydgysylltydd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf | Llamau |
| Cymdeithas Gofal Sir Benfro | Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg |
| Cymdeithas Tai Cadwyn | Safeagent |
| Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd Cymru | Unedig Cymru |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Dienw x 5 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | |